Pontio – yng Nghymru a Lloegr

Rhagymadrodd

Y mae gadael ysgol neu wasanaethau ar gyfer plant anabl a newid i fod yn oedolyn yn amser llawn her i bobl ifanc a'u rhieni. Pa fathau o ddewisiadau sy'n bodoli ac a fyddant yn cynorthwyo'r person ifanc i fyw bywyd llawn boddhad?

Y mae llawer o rieni yn teimlo'n bryderus ar yr adeg hon, gan ddarogan gwasanaethau gwael neu ddiffyg dewis posibl ar gyfer eu plant. Fe fydd y gefnogaeth y gallant fod wedi'i mwynhau drwy grwpiau rhieni lleol neu wasanaethau plant lleol yn symud i ffwrdd.

Am y rhesymau hyn, y mae'n hanfodol fod rhieni a'u plant yn cynllunio ar gyfer pontio cyn gynted â phosibl. Efallai eich bod chi fel rhiant yn cymryd y rhan arweiniol gyda chydgysylltu gwasanaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau eich bod yn derbyn yr holl wybodaeth, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd. Nod y daflen wybodaeth hon yw cynorthwyo drwy ddod â rhai o'r prif faterion ynghyd y mae ar rieni a phobl ifanc angen eu hystyried. Y mae wedi'i hysgrifennu ar gyfer rhieni a'u plant 13 mlwydd oed a hŷn, gan mai 13/14 yw'r oedran pan ddylai'r broses o bontio ddechrau. Ar yr adeg hon, a thra bo'r plentyn yn dal yn yr ysgol, fe all rhieni barhau i gael cyngor a chefnogaeth ynglŷn â materion addysg oddi eu gwasanaeth partneriaeth rhieni lleol. Fe ellir canfod mwy o wybodaeth am wasanaethau partneriaeth rhieni yn nhaflenni gwybodaeth Cyswllt Teulu, '*Anghenion Addysgol Arbennig - Lloegr*' ac '*Anghenion Addysgol Arbennig - Cymru'*. Ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu am gopi. Tra bo gofal iechyd y plentyn yn dal mewn lleoliadau pediatrig, yna y mae cefnogaeth ar gael oddi wrth y tîm pediatrig. Y mae cynllunio da ar gyfer pontio i wasanaethau iechyd oedolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod iechyd y person ifanc yn cael ei gynnal.

Dechrau meddwl am bontio

Ym mlwyddyn ysgol 9 (y flwyddyn pan fo pobl ifanc yn cyrraedd 14), os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA), fe wna'r awdurdod addysg lleol (AALl) ysgrifennu atoch yn eich hysbysu chi am adolygiad sydd ar ddod. Y mae'n rhaid i'r adolygiad hwn gynnwys llunio Cynllun Pontio.

Beth yw'r Cynllun Pontio?

'Fe ddylai'r Cynllun Pontio ddod â gwybodaeth ynghyd oddi wrth ystod o unigolion o fewn a'r tu hwnt i ysgol er mwyn cynllunio'n gydlynol ar gyfer trawsnewidiad y person ifanc i fywyd oedolyn. Y mae Cynlluniau Pontio pan gânt eu llunio am y tro cyntaf ym Mlwyddyn 9 yn fwy nag ond ynglŷn â threfniadau ôl-ysgol, fe ddylent gynllunio ar gyfer darpariaeth ysgol sy'n barhaus, o dan y datganiad o AAA fel y'i arolygir gan yr AALl.'
(Codau Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, Paragraff 9:51)

Y mae ar bob ysgol ddyletswydd o dan Ddeddf Addysg 1996 i gael Polisïau AAA, sy'n rhoi ystyriaeth i drefniadau Cynllun Pontio. Y mae'n rhaid i'r polisïau enwi'r gweithwyr proffesiynol lleol perthnasol – er enghraifft, fe ddylai fod gan y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol, fel ei gilydd, swyddogion dynodedig i gymryd cyfrifoldeb am asesiadau statudol.

Y mae Codau Ymarfer AAA sy'n ymdrin â Chymru a Lloegr yn ei gwneud hi'n eglur y dylai cynllunio cynllun pontio roi sylw i gwestiynau sy'n ymwneud â'r person ifanc, ei deulu, yr ysgol a'r gweithwyr proffesiynol sydd yn eu cymorth hwynt. Fe ddylai cwestiynau gynnwys (fel y dyfynnir oddi wrth Godau Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, Pennod 9):

> Beth yw gobeithion a dyheadau'r person ifanc ar gyfer y dyfodol a sut y gellir diwallu'r rhain?
>
> A fydd rhieni yn profi anghenion gofal newydd ac a fydd arnynt angen cymorth ymarferol?
>
> Sut y gall y cwricwlwm gynorthwyo pobl ifanc i chwarae'u rhan yn y gymuned?
>
> A oes gan y person ifanc unrhyw anghenion arbennig o ran iechyd neu les a fydd angen cynllunio a chefnogaeth oddi wrth y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol?

Y mae Deddf Addysg 1996 yn datgan bod yn rhaid i'r AALl gynnwys Cynllun Pontio yn yr adolygiad cyntaf ar ôl 14 mlwydd oed. Fe fydd yn rhaid gwahodd y *Connexions Service* yn Lloegr neu Gyrfa Cymru i ddarparu cyngor ysgrifenedig a mynychu'r cyfarfod hwn. Y mae'r ddau wasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y

Cynllun Pontio'n cael ei gyflawni. Fe fydd yn rhaid hefyd i'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn gysylltiedig fel y gall unrhyw asesiad cyfochrog gael ei wneud. Fe ddylai Cynllun Pontio adeiladu ar y casgliadau a gyrhaeddwyd a thargedau a bennwyd yn yr adolygiadau blynyddol blaenorol o ddatganiad AAA plentyn.

Y mae'r broses yn dechrau gyda chyfarfod adolygu cyntaf, a gydgysylltir gan yr AALl, y bydd rhieni'n cael eu gwahodd iddo ar delerau cyfartal â staff proffesiynol.

Y cyfarfod adolygu'r Cynllun Pontio

Fe fydd yn rhaid gwahodd yr holl wasanaethau lleol i'r cyfarfod adolygu:

> Y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod anghenion gofal y personau ieuainc yn cael eu hasesu'n llwyr.
>
> Gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig â gofal y person ifanc.
>
> Gwasanaethau addysg perthnasol.
>
> Y *Connexions Service* yn Lloegr neu Gyrfa Cymru.

Ac wrth gwrs, rhieni, y person ifanc ac unrhyw rai o'u cefnogwyr neu'u cynghorwyr.

Y mae gan rieni'r hawl i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol ac annibynnol yn y cyfarfod.
Yn ddelfrydol, fe ddylai fod gan bob cyfranogwr, gan gynnwys y rhieni, gopi o'r holl adroddiadau ysgrifenedig o flaen llaw ac fe fydd yn rhaid iddynt wybod pwy mewn gwirionedd sy'n mynychu.

Cyfraniadau i'r Cynllun Pontio

Sut y gall rhieni gyfrannu

Y mae gan rieni ran hanfodol gyda chasglu gwybodaeth berthnasol oherwydd eu bod yn adnabod y bobl bwysig i gyd a'r holl weithgareddau pwysig ym mywyd eu plentyn. Y maent hefyd yn gwybod beth y gallant ei wneud i gynorthwyo yn y dyfodol a deall rhai o'r dewisiadau sydd ar gael.

Y mae'n fuddiol gwneud rhestr wirio o bawb sydd wedi bod yn gweithio gyda'r person ifanc ac sydd â gwybodaeth a fydd yn bwysig yn y cyfarfod adolygu. Ni fydd pawb sy'n cael gwahoddiad yn gallu dod i'r cyfarfod, ac felly y mae gwybodaeth ysgrifenedig gadarnhaol gan weithwyr proffesiynol sy'n adnabod y person ifanc yn dda yn hanfodol gyda dyfeisio'r Cynllun Pontio. Y mae hefyd yn fuddiol meddwl am eich cyfraniad fel rhiant a gofalwr. Sut y gallwch chi gyfrannu tuag at ddatblygiad personol a chymdeithasol eich plentyn? A fydd anghenion gofal eich plentyn yn newid fel y mae ef/hi yn mynd yn hŷn? Sut ydych yn gweld dyfodol eich plentyn?

Sut y gall y person ifanc gyfrannu

'Fe ddylid ymofyn barn pobl ifanc eu hunain a'u cofnodi mewn unrhyw asesiad, ailasesiad neu adolygiad o Flwyddyn 9 ymlaen. Fe all fod angen Cynorthwy-wyr Personol, cwnselwyr, eiriolwyr neu gynghorwyr myfyrwyr, athrawon a staff eraill ysgolion, gweithwyr cymdeithasol neu gefnogaeth cyfoedion i gefnogi'r person ifanc yn y broses pontio.'
(Codau Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, Paragraff 9:55)

Fe fydd ar bobl ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu angen cael eu cynrychioli gan aelod agos o'r teulu neu weithiwr cynnal a all eiriol ar eu rhan.

Y mae rhai pobl ifanc yn ei chanfod hi'n fuddiol siarad â rhywun y maent eisoes yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo. Y mae eraill yn ei chanfod yn fwy buddiol gweithio gyda chynlluniau eiriolaeth neu gefnogaeth lleol a all eu cynorthwyo hwynt i nodi'r hyn yr hoffent. Fe fydd y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth gwybodaeth am anabledd lleol yn gwybod ble y mae'r cynlluniau eiriolaeth lleol. Y mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael cyfle i rannu'u pryderon a'u syniadau – y tu fewn a'r tu allan i'r teulu, fel ei gilydd.

Fe allai fod arnynt angen trafod pryderon personol megis:

- Ennill cyfeillion a chael bywyd cymdeithasol;

Perthnasau rhywiol;
Goblygiadau ariannol gadael cartref;
Cael digon o gymorth mewn coleg neu brifysgol;
Rhieni yn mynd i oed;
Gofal personol.

Y mae'n fuddiol dechrau cadw cofnod o ddiddordebau a chyflawniadau, gan gynnwys rhai hamdden, rhag ofn y daw hyn yn ddefnyddiol wrth ddechrau rhyw gwrs neilltuol yn ddiweddarach. Peidiwch ag anghofio cynnwys unrhyw Gofnodion Cyflawniadau o'r ysgol

Cynllunio wedi'i ganoli ar y person

Valuing People / Gweld Gwerth mewn Pobl, yn Lloegr, yw cynllun y llywodraeth ar gyfer gwneud bywydau pobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn well. Yng Nghymru, y mae yna bolisi cyffelyb o'r enw 'Gwireddu'r Addewidion'. Y mae'r polisïau yn datgan mai fel y mae pobl ifanc yn tyfu i fyny, fe ddylai cael y gefnogaeth y mae arnynt hwynt a'u teulu ei hangen fod yn ddigon syml. Fe ddylid rhoi cyfleoedd i bobl anabl ifanc gyrraedd eu llawn botensial a gwireddu'u huchelgeisiau. I gyflawni hyn yn ystod y cyfnod pontio, fe ddylid cael cynllunio wedi'i ganoli ar y person. Y mae cynllunio wedi'i ganoli ar y person yn golygu gwneud pethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, ac yn cymryd eu barn i ystyriaeth pan wneir penderfyniadau. Y mae cynllunio wedi'i ganoli ar y person yn ymwneud â:

Gwrando ar a dysgu am yr hyn y mae pobl eisiau o'u bywydau;

Cynorthwyo pobl i feddwl am yr hyn y maent eisiau yn awr ac yn y dyfodol;

Teulu, cyfeillion, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau yn cydweithio â'r person anabl ifanc i wneud i hyn ddigwydd.

Fe ellir canfod mwy o wybodaeth am **Valuing People**, cynllunio wedi'i ganoli ar y person a phontio yn:

Gwefan: **http://www.valuingpeople.gov.uk**
neu yng **Nghymru** yn:
Gwefan: **http://www.scovo.org.uk**

Rhestr Wirio: Y Cynllun Pontio

Blwyddyn 9: (blwyddyn academaidd pen-blwydd yn 14)

Y mae'r awdurdod addysg lleol (AALl) yn ysgrifennu i'ch gwahodd chi i Adolygiad Pontio 14+,

Yr AALl yn hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol,

Fe fydd yn rhaid i gynrychiolydd o *Connexions* neu Gyrfa Cymru gael gwahoddiad i a mynychu adolygiad Blwyddyn 9,

Cyfarfod Adolygiad Pontio 14+ yn cael ei gynnal.

Blwyddyn 10: (blwyddyn academaidd pen-blwydd yn 15)

Fe hysbysir rhieni o Adolygiad 15+: A ydych yn dymuno cael unrhyw newidiadau i'r cynllun?

Efallai ar yr adeg hon yr eir at gynghorydd personol *Connexions* neu gynrychiolydd o Gyrfa Cymru am ragor o arweiniad,

Dechrau ymweld â cholegau lleol neu wasanaethau eraill ar gyfer disgyblion ôl-16.

Blwyddyn 11: (blwyddyn academaidd pen-blwydd yn 16)

A yw'r Cynllun Pontio yn dal yn berthnasol?

Pan yn 16, fe wna tîm plant y gwasanaethau cymdeithasol gysylltu gyda'r rheolwr gofal i oedolion ynglŷn ag unrhyw gyfarfodydd cynllunio y gellir fod eu hangen,

Fe ddylai cynrychiolydd o Gyrfa Cymru/*Connexions* fynychu'r adolygiad ym Mlwyddyn 11 er mwyn sicrhau bod y Cynllun Pontio yn cael ei ddiweddaru'n briodol. I'r bobl ifanc hynny sy'n gadael ysgol, y mae yna hefyd ddyletswydd o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i sicrhau bod yna asesiad ar wahân o angen wrth adael ysgol yn cael ei gwblhau a bod y ddarpariaeth yn cael ei nodi,

Fe ddylai'r AALl wneud cais am gyllid oddi wrth y Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) yn Lloegr neu oddi wrth Gynulliad Cymru, os yn berthnasol,

Fe allai fod yna newidiadau mawrion i fudd-daliadau'r person ifanc. Y mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn nhaflen wybodaeth Cyswllt Teulu, '*Budd-daliadau, Credydau Treth a mathau eraill o gymorth ariannol*'.

Blwyddyn 12: (blwyddyn academaidd pen-blwydd yn 17)

Adolygiad Blynyddol 17+: A yw'r Cynllun Pontio yn ei le ac yn dal yn berthnasol? Pa newidiadau y mae angen eu gwneud?

Pan yn 18, fe gynhelir trosglwyddo i dîm gofal oedolion. Fe all y broses hon ddigwydd yn 16 ac weithiau yn 19,

Yn olaf, wrth adael addysg amser llawn (ysgol neu goleg), y mae'r person ifanc yn dod o dan adain y Ddeddf Personau Anabl (gweler tudalen 15).

Wedi'r Cynllun Pontio gael ei lunio

Unwaith y bydd y Cynllun Pontio wedi'i lunio, fe fydd yn rhaid i'r AALl gylchlythyru'r cynllun i'r rhieni, y prifathro, y gwasanaethau cymdeithasol, y cysylltiadau iechyd perthnasol ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol a gofalwyr eraill.

Y mae'n rhaid i'r AALl sicrhau bod yr holl wasanaethau a nodir fel rhai angenrheidiol yn y Cynllun Pontio ar gael ar gyfer y person ifanc fel y maent yn mynd drwy'r cyfnod pontio tan y byddant yn gadael ysgol.

Enghraifft o gydweithio

Y mae John yn 14 ac y mae arno *spina bifida*. Fe eisteddodd ef a'i rieni i lawr a gwneud rhestr wirio ynglŷn â phwy a ddylai gyfrannu i'w Gynllun Pontio.

Y seicolegydd addysgol - oherwydd bod gan John rywfaint o anawsterau dysgu.

Therapydd galwedigaethol - Yr oedd John, sy'n mynd yn drymach fel y mae'n mynd yn hŷn, eisiau cymorth ymarferol gyda chyfarpar a chymhorthion i'w gynorthwyo ef i fynd i'r coleg ar ei ben ei hun.

Ei hyfforddwr chwaraeon -
Y mae John yn sbortsmon egnïol ac fe fyddai'n hoffi swydd yn y diwydiant hamdden; y mae'n teimlo bod ei hyfforddwr chwaraeon yn gwybod mwy amdano na llawer o bobl eraill.

Ei bediatrydd -
Y mae gan John rywfaint o broblemau iechyd ond y mae'n teimlo eu bod o dan reolaeth. Y mae John a'i rieni yn cytuno y dylai siarad gyda'r meddyg ar ei ben ei hun, gan fod ei breifatrwydd yn bwysig gan ei fod yn awr yn hŷn.

Y gwasanaethau cymdeithasol -
Y mae tad John yn ei chael hi'n anodd iawn codi pethau yn awr. Y mae'r teulu yn teimlo y bydd rhywfaint o addasiadau gartref yn gwneud bywyd beunyddiol yn haws.

Y Cyngor Dysgu a Sgiliau -
Y mae John eisiau mynd i goleg ac, os yn bosibl, i brifysgol.

Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO) John – sydd wedi bod yn gefnogol iawn ac fe all roi gwybodaeth fanwl am ei gynnydd dros y tair blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Cyngor dros Blant Anabl

Addysg bellach neu addysg uwch

Yn sylfaenol, y mae yna dri dewis i bobl ifanc sy'n dymuno parhau â'u haddysg ar ôl ysgol:

Colegau Addysg Bellach

Colegau arbenigol annibynnol

Sefydliadau Addysg Uwch

Fe fydd Cynllun Pontio llwyddiannus wedi sicrhau y bydd gan y person ifanc ddealltwriaeth bendant o ba gyfleoedd addysgol sy'n bodoli ar ôl gadael ysgol. Fe fydd y dewis o goleg yn amlwg yn dibynnu ar y math o gwrs y mae'r person ifanc yn dymuno'i gymryd a ble y caiff y cwrs ei gynnal.

Y mae'n bwysig i ddarpar fyfyrwyr ymweld â'r coleg y maent yn meddwl am ymuno ag ef fel y gallant gyfarfod â staff a myfyrwyr eraill a thrafod eu hanghenion cynnal.

Y mae'r Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) yn Lloegr a Chynulliad Cymru yng Nghymru yn gyfrifol am sicrhau bod yna ddarpariaeth amser llawn ddigonol o bob cwrs ar gyfer pobl ifanc 16-18 mlwydd oed. Y maent hefyd yn gyfrifol am ariannu rhai cyrsiau rhan amser ar gyfer pobl ifanc 16-18 mlwydd oed, yn ogystal ag ar gyfer oedolion 19 mlwydd oed a hŷn. Y mae yna ddyletswydd ar awdurdodau addysg lleol (AALl) i ariannu darpariaeth ddigonol o gyrsiau sydd y tu draw i gyfrifoldeb y Cyngor Dysgu a Sgiliau neu Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ymgynghorwch â'ch AALl am fwy o fanylion ynglŷn â'r mater hyn.

Skill

Skill yw'r Biwro Cenedlaethol ar gyfer Myfyrwyr sydd ag Anableddau. Y mae'n darparu cefnogaeth unigol ac y mae'n cyhoeddi taflenni gwybodaeth buddiol ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd ag Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant, gan gynnwys gwybodaeth am gyllido.
Skill, Chapter House, 18-20 Crucifix Lane, Llundain SE1 3JW
Ffôn: **0800 328 5050** (Dydd Mawrth, 11.30 y bore - 1.30 y pnawn; Dydd Iau, 1.30 - 3.30 y pnawn).
Ffôn Testun: **0800 068 2422**
E-bost: **info@skill.org.uk**
Gwefan: **http://www.skill.org.uk**

EGAS

Y mae Gwasanaeth Cynghori ar Grantiau Addysg (EGAS) yn cael ei weithredu gan y Gymdeithas Lles Teuluoedd, ac y mae'n cynnig arweiniad a chyngor ynglŷn ag ariannu ar gyfer y sawl sy'n astudio mewn addysg ôl-16 yn y DU. Y mae'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ffynonellau cyllid, gan gynnwys benthyciadau, grantiau, budd-daliadau, cronfeydd mynediad, cronfeydd caledi, bwrsarïau ac ymddiriedolaethau elusennol.
EGAS, 501-505 Kingsland Road, Llundain E8 4AU
Ffôn: **(020) 7254 6251** (Llun, Mercher & Gwener, 10.00 y bore – 12.00 hanner dydd & 2.00 – 4.00 y pnawn) Gwefan: **http://www.egas-online.org**

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

O dan Rhan 4 y Ddeddf, os oes ar eich plentyn anabledd ac y mae wedi dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn mewn addysg, fe allwch herio hyn. Nid oes yn rhaid ichi gael datganiad i ddod o fewn darpariaeth y ddeddfwriaeth. Ond y mae'n rhaid bod arnoch anabledd a ddiffinnir fel:

'Nam corfforol neu feddyliol, sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i berfformio gweithgareddau beunyddiol arferol.'

Fe ellir canfod mwy o wybodaeth am sut y mae hyn yn berthnasol mewn ysgolion yn ein taflenni gwybodaeth, '*SEN - England'* ac '*AAA - Cymru'*. Parthed addysg ôl-16, y mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â:

- Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch;
- AALl yn sicrhau addysg bellach, gan gynnwys addysg i oedolion ac addysg gymunedol;
- Ysgolion yn darparu addysg bellach ar gyfer oedolion;
- AALl yn darparu gwasanaethau ieuenctid statudol.

Y mae'r Ddeddf yn ymdrin â:

- Derbyn myfyrwyr a gwaharddiadau, gan gynnwys wrth ymholi am ac ymgeisio am gwrs;
- Gwasanaethau, gan gynnwys lleoliadau gwaith, gwibdeithiau a theithiau, ac arholiadau ac asesiadau;
- Fe ellir canfod gwybodaeth fanylach am y Ddeddf yn y daflen, Canllaw ar gyfer Myfyrwyr a Dysgwyr Anabl, sydd ar gael oddi wrth:

Y Comisiwn Hawliau Anabledd
DRC Helpline, FREEPOST, MID02164, Stratford upon Avon CV37 9BR
Ffôn: **08457 622 633** (Llun - Gwener 8.00 y bore – 8.00 yr hwyr)
Ffôn Testun: **08457 622 644**
Gwefan: **http://www.drc-gb.org**

Addysg, hyfforddiant ac opsiynau gwaith

Fe fydd rhai pobl ifanc yn dymuno symud ymlaen i Addysg Bellach neu Addysg Uwch. I eraill, fe all mai'u hoff ddewis yw gweithio. Y mae yna amryw o asiantaethau a phobl y dylid ymgynghori â hwynt:

Fe all **Canolfan Byd Gwaith** ddarparu ystod o wasanaethau. Fe all Ymgynghorydd Cyflogaeth Anabledd (DEA) ddarparu cefnogaeth i bobl sydd yn ei chael hi'n anodd cael gwaith oherwydd eu hanabledd. Fe allant gynorthwyo gydag asesiad cyflogaeth i gynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer cael gwaith a darparu rhagor o fanylion ynglŷn â Cam At Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd. Drwy'r rhaglen Mynediad i Waith, fe all pobl gael mynediad at gyfathrebwr ar gyfer cyfweliadau, ochr yn ochr ag ystod o gefnogaeth unwaith y maent mewn gwaith. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith leol neu ewch i:
Gwefan: **http://www.jobcentreplus.gov.uk**

Y **Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC)** sy'n gyfrifol am ariannu a chynllunio addysg a hyfforddiant i bobl ifanc dros 16 mlwydd oed yn Lloegr. Y mae hyn yn cynnwys Addysg Bellach, hyfforddiant yn y gwaith, chweched dosbarth ysgolion a dysgu oedolion yn y gymuned ond nid Addysg Uwch. Am fwy o wybodaeth:
Ffôn: **0870 900 6800** neu
Gwefan: **http://www.lsc.gov.uk**

Y mae gan **Gynulliad Cymru** gyfrifoldeb am gyllido, cynllunio a hyrwyddo holl addysg ôl-16 a hyfforddiant yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch. Y mae hyn yn cynnwys Addysg Bellach, hyfforddiant yn y sector preifat a gwirfoddol, addysg barhaus i oedolion a chweched dosbarth. Am fwy o wybodaeth:
Ffôn: **0845 010 3300**
Gwefan: **http://new.wales.gov.uk**

Y mae **Gyrfa Cymru** yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd i gynorthwyo pobl ifanc ac oedolion i wneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau dysgu a gyrfaoedd yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth:
Ffôn: (029) 2085 4880 neu
Gwefan: **http://www.careerswales.com**

Connexions yw gwasanaeth cynnal y Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc 13-19 mlwydd oed yn Lloegr. Nod y gwasanaeth yw darparu cyngor integredig, arweiniad a mynediad at gyfleoedd datblygiad personol a chymorth pobl ifanc i bontio i fywyd oedolion.
Ffôn: **080 800 132 19**
Gwefan: **http://www.connexions.gov.uk**

Canolfannau dydd i oedolion. Fe all fod ar rai unigolion angen y gefnogaeth a'r hyfforddiant a gynigir gan ganolfannau dydd. Y mae'r rhain fel arfer yn cael eu cynnal gan adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol, ond fe allant gael eu cynnal gan fudiadau gwirfoddol. Y mae'r cyfryw ganolfannau yn cynnig hyfforddiant parhaus mewn meysydd megis byw'n annibynnol a sgiliau gwaith. Os cynigir lleoliad, fe allai fod yn un byrdymor neu hirdymor, yn dibynnu ar angen y person. Y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn 19 mlwydd oed neu hŷn. Gweithiwr cymdeithasol sy'n atgyfeirio ar gyfer lleoliad. Fodd bynnag, nid oes yna lawer o ganolfannau dydd i oedolion yn weddill. Y mae'n fwy tebygol fod yna gynllun gyda gweithgareddau wedi'u seilio yn y gymuned.

Gwasanaeth yw **cyflogaeth â chymorth** ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu sydd yn eu galluogi i ganfod a dal gafael ar swydd go iawn drwy ddarparu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant y mae arnynt angen yn y gwaith. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r Gymdeithas Cyflogaeth â Chymorth.
Gwefan: **http://www.afse.org.uk**

Gwasanaethau gofal yn y gymuned

Hyd at 18 mlwydd oed, y mae anghenion eich mab neu'ch merch yn cael eu hasesu o dan y Ddeddf Plant. O 18 mlwydd oed, y mae yna drosglwyddo i wasanaethau oedolion o dan Ddeddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990. Y mae'r Ddeddf hon yn ymgorffori deddfwriaeth flaenorol, gan gynnwys Deddf y Cleifion a'r Anabl Cronig 1970.

Y mae yna reidrwydd yn awr ar bob awdurdod lleol i gyhoeddi cynllun gofal yn y gymuned sy'n gorfod amlinellu pa wasanaethau y maent yn bwriadu'u darparu i'r sawl sy'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf. Y mae'r Ddeddf hon hefyd yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr. Cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol am fanylion.

Rhan anhepgor o ddeddfwriaeth gofal yn y gymuned yw hawl y sawl sydd angen cefnogaeth i gael asesiad llawn o angen. Fe ddylai'r asesiad hwn ystyried anghenion person yn eu cyfanrwydd ac nid edrych ar bob un ar wahân. Fe ddylai'r asesiad neu'r cynllun gofal hwn gael ei gysylltu â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i gynhyrchu'r Cynllun Pontio.
Y mae asesiadau i ofalwyr a'r person y gofalir amdano yn gyfrifoldeb i'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol.

Am ragor o wybodaeth am ddeddfwriaeth ar gyfer gofalwyr a sut y mae'n effeithio ar oedolion ieuainc sydd ag anableddau a gofalwyr, cysylltwch â Llinell Gymorth Cyswllt Teulu ar 0808 808 3555.

Y mae *Carers UK* hefyd yn cynhyrchu ystod ddefnyddiol o gyhoeddiadau ar gyfer gofalwyr:

Carers UK
20/25 Glasshouse Yard, Llundain EC1A 4JT
Ffôn: **020 7490 8818**
E-bost: **info@carersuk.org**
Gwefan: **http://www.carersuk.org**

Asesiad Deddf Personau Anabl

O dan Ddeddf Personau Anabl 1986, fe ddylid cynnal y weithdrefn a ganlyn ar gyfer asesu. Fe ddylai'r broses hon fod yn gyfochrog, ac yn gysylltiedig, â'r Cynllun Pontio a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

Y mae yna reidrwydd ar yr awdurdod addysg lleol (AALl) i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â **phob** person ifanc 13/14 mlwydd oed yr ystyrir eu bod yn anabl.

Wyth mis cyn y bydd person ifanc sydd ag anabledd i fod i adael addysg amser llawn, y mae yna reidrwydd ar yr AALl i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ysgrifenedig.

Unwaith y bydd y gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hysbysu, yna y maent i fod i gydgysylltu asesiad amlasiantaethol o'r person ifanc, ac fe fydd yn rhaid ei gwblhau cyn pen tri mis cyn dyddiad gadael ysgol neu goleg y person.

Fe ddylid annog gofalwyr y person ifanc, yn ogystal â'r person ifanc, i gymryd rhan lawn a gweithredol yn y broses hon. Fe all hyn gynnwys yr hawl i wrthod asesiad neu wasanaeth neilltuol os mai dyma'u dymuniad. Ni fyddai'r cyfryw wrthodiad yn gwahardd person rhag derbyn cymorth yn y dyfodol.

Fe ddylai'r adroddiad terfynol o'r asesiad hwn gael ei drafod gyda'r person ifanc. Ar ôl i unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt gael eu gwneud, fe ddylai'r adroddiad gael ei gylchlythyru at bob gweithiwr proffesiynol perthnasol, aelodau'r teulu ac unrhyw ofalwyr eraill.

Ar ôl i'r asesiad a'r adroddiad gael eu cynhyrchu, fe ddylai'r gweithiwr cymdeithasol dan sylw drefnu adolygiad ble y dylai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad gael ei thrafod a chynlluniau perthnasol ar gyfer y person ifanc gael eu llunio. Fe ddylai aelod o'r tîm gofal i oedolion fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath.

Asesiad Gofalwr

Fel rhiant/gofalwr person ifanc sydd ag anableddau, y mae gennych hefyd hawl i gael asesiad, a adwaenir fel asesiad gofalwr. Fe wneir hyn gan y gwasanaethau cymdeithasol ac fe ellir ei wneud ochr yn ochr ag asesiad y person ifanc neu ar wahân. Nod yr asesiad gofalwr yw edrych ar y gofal yr ydych yn ei ddarparu ar gyfer y person ifanc a'r math o gymorth y gall y gwasanaethau cymdeithasol ei ddarparu i'ch cynnal chi. Fel y mae'ch plentyn yn mynd drwy'r cyfnod pontio, fe all ei anghenion ef neu'i hanghenion hi newid, ac fe all eich rôl chwithau fel gofalwr newid hefyd. Gofynnwch i weithiwr cymdeithasol eich plentyn neu i'r gwasanaethau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

Pa wasanaethau cynnal sydd ar gael?

Fe fyddai'n gamarweiniol dweud bod yna rwydwaith cynnal cynhwysfawr o wasanaethau ar gael i bobl ifanc unigol a'u gofalwyr, unwaith y bydd person wedi gadael addysg amser llawn. Fodd bynnag, y mae'n bwysig bod y cynlluniau sy'n cael eu gwneud drwy'r cyfnod pontio yn cynnwys nid yn unig wasanaethau sydd yn bodoli ond hefyd eu bod yn datgan pa wasanaethau eraill a ddylai fodoli os yw'r person i gael ei gefnogi yn iawn.

Y mae Deddf y Cleifion a'r Anabl Cronig yn amlinellu pa fath o gymorth y dylid ei ddarparu. O dan y Ddeddf hon, i'r plentyn neu'r oedolyn anabl unigol y mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau, ac nid yw'n ymestyn i aelodau eraill y teulu.

Y gwasanaethau y manylir arnynt yw:

- Cymorth ymarferol yn y cartref, megis cymorth gyda gofal personol o'ch plentyn, e.e. cymorth gyda mynd i mewn ac allan o'r gwely;

- Darparu cyfarpar i ddiwallu angen hamdden, megis teledu, radio neu gyfrifiadur;

- Cymorth gyda theithio a phethau eraill, megis teithio i ac o ganolfan ddydd;

- Cyfleusterau addasu'r cartref, megis gosod canllawiau, teclynnau codi, ac yn y blaen;

- Gwyliau;

- Prydau bwyd;

- Cyfarpar ffôn.

Yn y rhannau a ganlyn, yr ydym wedi tynnu sylw at rai o'r gwasanaethau cynnal craidd y dylid eu hystyried.

Y mae'n werth nodi yn y fan hyn, fel y saif y ddeddf ar hyn o bryd, pan fo mab neu ferch yn cyrraedd 18 ac yn dod yn oedolyn, nid oes gan rieni fawr o hawliau dros ble y dylai ef/hi fyw neu beth y dylent wneud. Mewn gwirionedd, yn aml nid yw hyn yn fater i'r rhan fwyaf o deuluoedd, gan fod ymgynghori rheolaidd gyda theuluoedd a gofalwyr fel arfer yn cael ei weld fel ymarfer da gan weithwyr proffesiynol.

Fodd bynnag, o fis Ebrill 2007, fe fydd y Deddf Galluedd Meddyliol yn sefydlu hawl gyffredinol i ymgynghori ag aelodau'r teulu a gofalwyr eraill ynglŷn â materion sy'n effeithio ar rywun 16 mlwydd oed neu hŷn sydd ag anabledd sydd yn eu rhwystro hwynt rhag penderfynu pethau drostynt eu hunain. Mewn rhai

amgylchiadau (e.e. y mae yna anghydfod ynglŷn â'r hyn yw buddiannau gorau'r person), fe fydd hi hefyd yn bosibl i aelod o'r teulu wneud cais i'r Llys Gwarchod am y grym i wneud penderfyniadau ynglŷn â lles, arian a rhai agweddau o ofal meddygol y cyfryw berson. Y mae'r mathau hyn o rymoedd ond yn debygol o gael eu rhoi os yw'r Llys Gwarchod yn argyhoeddedig eu bod yn hollol angenrheidiol. Am ragor o wybodaeth am y Ddeddf a'i goblygiadau, cysylltwch â'n llinell gymorth rhadffôn.

Taliadau Uniongyrchol

Fe all awdurdodau lleol roi taliadau, yn hytrach na gwasanaethau, i ganiatáu i bobl anabl a gofalwyr brynu'r gwasanaethau yr aseswyd fod arnynt eu hangen. Fe ystyrir fod Taliadau Uniongyrchol yn hyrwyddo annibyniaeth y rhieni a'u plant anabl a hoffai reoli'u hanghenion gofal cymdeithasol eu hunain.

Os yw person ifanc yn ieuengach nag 16 mlwydd oed, fe gaiff Taliadau Uniongyrchol eu gwneud fel arfer i'r rhiant. Pan ddaw plentyn yn 16, fe all hi neu ef dderbyn taliadau yn eu rhinwedd eu hunain i'w caniatáu i brynu'r gwasanaethau yr aseswyd fod arnynt eu hangen.

Yn y gorffennol, ni allech fynnu ar Daliadau Uniongyrchol. Fodd bynnag, yn Lloegr, fe ddylai cais yn awr ond cael ei wrthod mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Yng Nghymru, y mae cynlluniau Taliadau Uniongyrchol hefyd yn orfodol.

Fe ddylai'r swm yr ydych yn ei dderbyn fod yn ddigon i'ch galluogi chi i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig, gan gynnwys treth ac Yswiriant Gwladol, yn ogystal â'r ffi ar gyfer archwiliad yr heddlu (pe byddech yn cyflogi cymorth yn uniongyrchol). Fe fydd y gwasanaethau cymdeithasol fel arfer yn didynnu swm o'r taliadau sy'n gyfwerth â'r hyn y byddid wedi codi arnoch pe byddent wedi trefnu'r gwasanaethau.

Neu fel arall, fe all y gwasanaethau cymdeithasol wneud y taliadau yn llawn a gofyn ichi ad-dalu iddynt unrhyw dâl a aseswyd. Fe fydd yn rhaid i unrhyw daliadau yr ydych yn eu derbyn gael eu defnyddio i dalu am wasanaethau i ddiwallu'r anghenion a aseswyd.

Seibiannau byrdymor

Y mae gan lawer o ardaloedd ddarpariaeth ar gyfer seibiant byrdymor sydd ar gael i blant ac oedolion, fel ei gilydd. Eto, os rhagwelir y bydd angen y cyfryw ofal tan fydd y plentyn yn oedolyn, yna fe fydd yn rhaid cynnwys hyn yn y Cynllun Pontio.

Fe ddylid cysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol am fanylion ynglŷn ag opsiynau seibiant byr. Y mae'r sector gwirfoddol yn awr yn ddarparwr sylweddol o

wasanaethau seibiant byr. Fe ddylai fod gan eich adran gwasanaethau cymdeithasol ragor o fanylion.

Yn ogystal â seibiannau byrdymor preswyl, fe all fod yna gysylltiad teuluol lleol neu gynllun ymgyfeillio yn cysylltu pobl ifanc â theulu neu wirfoddolwr am seibiannau byrion.

Talebau

Y mae Deddf Gofalwyr a Phersonau Anabl 2000 hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol yn Lloegr ddarparu talebau. Fe ddylai hyn alluogi gofalwyr a phlant anabl i dderbyn talebau ar gyfer seibiannau byrion ar adeg o'u dewis hwynt. Fodd bynnag, yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd, y mae'r cynllun yn mynd yn ôl disgresiwn, sy'n golygu nad oes yn rhaid i awdurdodau lleol gynnig hyn. Os hoffech wybod mwy am y cynllun, fe ddylai Llinell Gymorth Cyswllt Teulu 0808 808 3555 allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

Cronfa Byw'n Annibynnol (CBA)

Y mae hon yn gronfa ymddiriedolaeth annibynnol yn ôl disgresiwn. Y mae'r GBA yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i drefnu pecynnau gofal ar y cyd, sy'n gymysgedd o wasanaethau oddi wrth yr awdurdod lleol ac arian oddi wrth y GBA i alluogi pobl sydd ag anableddau i brynu gofal ychwanegol. Y mae yna amrywiol amodau ynghlwm, ond y mae'n gronfa ddisgresiwn, sy'n golygu yr ystyrir pob person yn unigol.

I ganfod gwybodaeth am gymhwyster, cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol a gofynnwch am asesiad, gan ddweud eich bod yn dymuno gwneud cais am GBA. Ar ôl ichi ymgeisio, fe wna gweithiwr cymdeithasol ymweliadau o'r GBA drefnu ymweliad ar y cyd gyda gweithiwr cymdeithasol o'r awdurdod lleol i drafod anghenion gofal a chytuno ar yr hyn sydd ei angen. Fe fydd gweithiwr cymdeithasol y GBA wedyn yn gwneud adroddiad ysgrifenedig gydag argymhellion i'r GBA.

Fe ellir canfod mwy o wybodaeth drwy: **ILF**, PO Box 7525, Nottingham NG2 4ZT
Ffôn: **0845 601 8815**
Gwefan: **http://www.ilf.org.uk**

Iechyd, tai a hamdden ar gyfer pobl ifanc

Iechyd

Fe erys Meddygon Teulu o hyd y man cyswllt cyntaf ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol. Fodd bynnag, fe wna llawer o bediatryddon barhau i weld eu cleifion tan y byddant yn oedolion, yn enwedig os oes yna oedi mewn tyfiant neu ddatblygiad neu anhwylder anghyffredin. Ni chaiff hyn at ei gilydd ei ystyried fel arfer da, serch hynny. Fe ddylai fod yna bontio wedi'i gynllunio at glinigwr i oedolion.

Y mae'n bwysig bod gweithiwr iechyd proffesiynol yn gysylltiedig â llunio'r Cynllun Pontio; er enghraifft, Meddyg Teulu'r person neu'r meddyg neu'r nyrs ysgol.

Y Meddyg Teulu a ddylai fod y man cyswllt cyntaf ar ôl gadael ysgol os bydd angen ffisiotherapi a/neu wasanaethau therapi lleferydd. Fe ddylai unrhyw therapi sydd ei angen fod wedi'i nodi yn y Cynllun Pontio fel bod yr holl wasanaethau yn ymwybodol cyn bod unigolyn yn gadael ysgol.
Ar gyfer cael therapi galwedigaethol, fe all Meddyg Teulu, ysbyty neu weithiwr cymdeithasol atgyfeirio. Os yw person yn mynychu darpariaeth dydd y gwasanaethau cymdeithasol, yna fe ddylai fod ganddynt fynediad at wasanaethau iechyd yno.

Fe all mynediad at gyfarpar fod drwy'r Meddyg Teulu, y gwasanaethau cymdeithasol neu ffisiotherapydd neu therapydd galwedigaethol. Ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu am gopi o'n taflen wybodaeth, 'Cymhorthion, Cyfarpar ac Addasiadau'. Y mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael oddi wrth:

Disabled Living Foundation

380-384 Harrow Road, Llundain W9 2HU
Ffôn: **0845 130 9177**
E-bost: **info@dlf.org.uk**
Gwefan: **http://www.dlf.org.uk**

Fe all cyngor ynglŷn ag iechyd rhywiol hefyd fod ar gael drwy'r Meddyg Teulu neu'r clinig lleol. Y mae hefyd yn werth cysylltu â gwasanaeth cynllunio teulu lleol os oes yna un yn bodoli yn eich ardal. Fe all mudiadau gwirfoddol hefyd gynorthwyo:

FPA
50, Featherstone Street, Llundain EC1Y 8QU
Ffôn: **0845 310 1334**
E-bost: **fpadirect@fpa.org.uk**
Gwefan: **http://www.fpa.org.uk**
Y maent yn cynhyrchu *Siarad gyda'n Gilydd am Dyfy i Fyny*, sef gweithlyfr gyda darluniau ar gyfer rhieni plant sydd ag anawsterau dysgu. Y maent hefyd yn cynhyrchu *Siarad gyda'n Gilydd ...am Ryw a Pherthnasau'*, sef pecyn dilynol a anelir at bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu sy'n 13+ oed.

Tai

Y mae adrannau tai awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio strategaethau sy'n rhoi sylw i'r ystod lawn o anghenion tai yn eu hardal. Y mae hyn yn cynnwys cydweithredu gyda'r sectorau tai preifat a gwirfoddol. Y mae yna rwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau tai i weithio gyda'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol i lunio cynlluniau gofal yn y gymuned a hyrwyddo gofal yn y gymuned drwy bolisïau ar y cyd. Yn ymarferol, fe ddylai hyn olygu'u bod yn mynd i'r afael ag anghenion pobl anabl ifanc drwy dai â chymorth, tai prif ffrwd a drwy wasanaethau megis addasiadau i'r cartref a chynghori.

Os yw hi'n briodol i'r person ifanc fyw ymaith o'i gartref unwaith y mae wedi gadael ysgol, yna y mae'n bwysig iawn bod hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Pontio. Y mae yna amryw o opsiynau y gellir eu hystyried, gan gynnwys lleoli mewn cartref preswyl neu gynllun byw'n annibynnol. Y mae'r cyfryw ddarpariaeth ar gael drwy'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat.

Eich gweithiwr cymdeithasol a ddylai fod eich man cysylltu cyntaf, er y gallwch ysgrifennu at wahanol gyrff gwirfoddol a phreifat, gan ofyn iddynt anfon gwybodaeth ichi. Fe ddylai fod gan adran dai eich awdurdod lleol hefyd fanylion ynglŷn â chynlluniau tai arbenigol a chymdeithasau tai sydd â lletyau yn eich ardal. Y mae'n bwysig iawn ymweld â thai newydd dichonol ac edrych ar yr holl opsiynau cyn penderfynu dim byd.

Housing Options
78a High Street, Witney OX28 6HL
Ffôn: **0845 456 1497**
E-bost: enquiries@housingoptions.org.uk
Gwefan: http://www.housingoptions.org.uk
Y maent yn darparu cyngor a gwybodaeth i bobl sydd ag anawsterau dysgu a'u gofalwyr parthed dod o hyd i wahanol fathau o dai.

Hamdden

Y mae mynediad at gyfleoedd hamdden yn rhan bwysig o fywyd unrhyw unigolyn. Y mae'n hanfodol felly bod y Cynllun Pontio yn cofnodi diddordebau a dyheadau hamdden person ifanc, a bod cynlluniau priodol wedyn yn cael eu gwneud.

Fe fydd gan unrhyw ardal benodol ystod o gyfleoedd hamdden, e.e. canolfannau hamdden a chlybiau. I ganfod mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch llyfrgell leol. Fe fydd gan wahanol asiantaethau gwirfoddol hefyd fanylion ynglŷn â gweithgareddau penodol, yn enwedig y rhai hynny sy'n hygyrch ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Cysylltwch â'ch Cyngor lleol am Wasanaeth Gwirfoddol neu ewch i:
Gwefan: **http://www.youthinformation.com**
neu
Gwefan: **http://www.nya.org.uk** am fanylion gwahanol sefydliadau yng Nghymru. Fe ddylai gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol hefyd gynnig cyfleoedd. Cysylltwch â swyddfa ieuenctid eich awdurdod lleol. Os oes gennych wasanaeth gwybodaeth lleol am anabledd, cysylltwch â hwynt. Y mae Cyswllt Teulu hefyd yn cynhyrchu taflen wybodaeth, *Gwyliau, Chwarae a Hamdden*. Ffoniwch y llinell gymorth am gopi.

Budd-daliadau

Pan fo'ch plentyn yn cyrraedd 16, fe all hawlio budd-daliadau yn ei rinwedd ei hun. Fodd bynnag, os ydyw'n gwneud hynny, fe fyddwch chi'n colli unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu derbyn am y plentyn fel eich dibynnydd, e.e. Budd-dal Plant. A fyddech cystal â ffonio llinell gymorth rhadffôn Cyswllt Teulu ar **0808 808 3555** (Dydd Llun - Dydd Gwener 10.00 y bore - 4.00 y pnawn, a nos Lun 5.30 y pnawn - 7.30 yr hwyr) am fwy o wybodaeth a chopi o'r daflen wybodaeth, *Budd-daliadau, Credydau Treth a mathau eraill o gymorth*. Y mae gan y daflen wybodaeth adran ynglŷn â budd-daliadau y gall person anabl ifanc eu hawlio pan fônt yn 16. Fe all eich gweithiwr cymdeithasol, canolfan gynghori leol neu weithiwr hawliau lles hefyd gynnig cyngor ac arweiniad. Y mae'n bwysig eich bod yn cael mwy o wybodaeth am fudd-daliadau cyn pen-blwydd plentyn yn 16 mlwydd oed.

Ewyllysiau ac ymddiriedolaethau

Y mae gwneud darpariaeth ar gyfer y dyfodol yn bwysig iawn i deuluoedd sydd â pherson ifanc anabl. Fe allwch sefydlu ymddiriedolaeth ar gyfer eich plentyn i sicrhau'i ddyfodol. Fe wna hyn olygu gweld cyfreithiwr am gyngor arbenigol. Fodd bynnag, y mae yna wybodaeth rad ac am ddim ar gael, a wna'ch cynorthwyo chi i benderfynu pa drefniadau yr hoffech eu gwneud.

Y mae'r **Gwasanaeth Cyfraith Anabledd** yn elusen cyfraith a chynghori ar gyfer pobl anabl a'u teuluoedd. Y mae'u taflen wybodaeth, '*Guidelines for trusts where there is a member of the family with a disability*', ar gael wrth ichi anfon amlen wedi'i chyfeirio a'i stampio (9 wrth 6 modfedd) oddi wrth Disability Law Service, Ground Floor, 39-45 Cavell Street, Llundain E1 2BP.
Ffôn: **020 7791 9800** (Dydd Llun i Ddydd Gwener 10.00 y bore - 1.00 y pnawn, a 2.00 y pnawn - 5.00 y pnawn).

Fe fydd yr elusen iechyd meddwl **MIND** hefyd yn gallu cynorthwyo. Os gwnewch gysylltu â hwynt, fe fyddant yn gallu anfon manylion ichi ynglŷn â chyfreithwyr sy'n arbenigo mewn ewyllysiau ac ymddiriedolaethau ac sy'n gweithio yn eich ardal. Cysylltwch â llinell wybodaeth MIND,
Ffôn: **0845 7660 163**
E-bost: **info@mind.org.uk**

Y mae gan **Mencap** lyfryn defnyddiol ar gyfer rhieni, sef 'Leaving money by will to people with learning disabilities', sydd ar gael am ddim. Ysgrifennwch at: Wills Team, Mencap, 123 Golden Lane, Llundain EC1Y 0RT neu
Ffôn: **020 7696 6925**
E-bost: **legaciesweb@mencap.org.uk**
Gwefan: **http://www.mencap.org.uk**

Rhagor o ddarllen a chysylltiadau defnyddiol

Y mae'r cyhoeddiadau a restrir yma yn cynnig man cychwyn da ar gyfer gwybodaeth fanylach.

Ar ôl 16 - beth sy'n newydd? Dewisiadau a heriau ar gyfer pobl anabl ifanc. Canllaw defnyddiol iawn ar gyfer pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Y mae'n cymryd golwg helaeth ar y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc fel y maent yn cyrraedd 16. Y mae gwybodaeth am addysg, budd-daliadau, grantiau, symudedd, ffynonellau cyngor, lwfansau a chymorth ymarferol yn cael eu cynnwys. Gwefan: **http://www.after16.org.uk**

Progress. Cylchgrawn yw hwn a gynhyrchir gan *Care Choices*. Y mae'n archwilio materion sy'n wynebu llawer o bobl ifanc sydd ag anableddau, ac y mae'n cynnwys gwybodaeth, cyngor a syniadau i gynorthwyo gydag edrych i'r dyfodol. Ffoniwch linell gymorth Cyswllt Teulu am gopi.

***Transition Guide*.** Y mae'r Cyngor dros Blant Anabl, mewn partneriaeth â *Skill*, yn datblygu canllaw ynglŷn â gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n trawsnewid i fod yn oedolion. Y mae'r canllaw yn adnawdd ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl asiantaethau drwy'r broses i gyd. Fe wna gynorthwyo gwasanaethau i sicrhau'u bod yn gwneud y cyfan y gallant i wella bywydau pobl ifanc anabl. Ar gael yn yr hydref yn 2006. Gwefan: **http://ncb.org.uk/cdc**

Transition! Getting it right for young people
Y mae'r canllaw arferion da hwn a'r DVD yn ddefnyddiol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd hirfaith. Ei nod yw dangos y dylai'r trosglwyddo o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion gael ei gynllunio a'i reoli fel proses. Ar gael oddi wrth DH Publications Orderline, PO Box 777 Llundain SE1 6XH
Ffôn: **0870 155 54 55**
E-bost: **dh@prolog.uk.com**
Gwefan: **http://www.dh.gov.uk**

***Passport to Life*.**
Fe gaiff hwn ei gynhyrchu gan Sefydliad Dinasyddiaeth (Citizenship Foundation) ac Ymateb Unedig (United Response) gyda phobl sydd ag anawsterau dysgu. Y mae'n Gryno Ddisg a llyfryn am hawliau a chyfrifoldebau, yn ogystal ag yn rhoi manylion ynglŷn â ble i fynd am fwy o gymorth a gwybodaeth.
Communications Department, United Response,113-123 Upper Richmond Road, Llundain SW15 2TL
E-bost: **info@unitedresponse.org.uk**

Gwefan: http://www.unitedresponse.org.uk

***Move On Up*.**
Cefnogi pobl anabl ifanc wrth iddynt drawsnewid i fod yn oedolion. Y mae'r adroddiad hwn, a thaflen gydag ef am Cael eich hawliau, wedi'i gynhyrchu gan Jenny Morris mewn cydweithrediad â Barnardos. Y mae llais pobl ifanc sy'n profi trawsnewid yn cael ei glywed yn eglur, ynghyd â chanllawiau arferion da ar gyfer gwasanaethau sy'n ceisio â chefnogi pobl ifanc drwy'r amser hyn. Dogfen ddefnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rhieni a phobl ifanc.
Barnardos Childcare Publications, Linney House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex 1G6 1QG
Ffôn: **020 8498 7844**
Gwefan: **http://www.barnardos.org.uk**

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (Lloegr) (2001)
Y mae'r ddogfen hon, a gyhoeddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES), yn rhoi arweiniad ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig. Y mae'n rhaid i'r ddogfen hon gael ystyriaeth gan sefydliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol wrth iddynt ystyried anghenion addysgol arbennig (AAA) plentyn.
DfES, PO Box 5050, Annesley,
Nottingham NG15 0DL
Ffôn: 0845 60 222 60
E-bost: **info@dfes.gsi.gov.uk**
Gwefan: **www.dfes.gov.uk**

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)
Y mae'r ddogfen hon, a gyhoeddir gan Gynulliad Cymru, yn rhoi arweiniad ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig. Y mae'n rhaid i'r ddogfen hon gael ystyriaeth gan sefydliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol wrth iddynt ystyried anghenion arbennig plentyn.
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Is-adran Cymorth Disgyblion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: **(029) 2082 6078**
Gwefan: **http://new.wales.gov.uk**

Moving on Up
Gwefan a ddyluniwyd i'w defnyddio gan bobl ifanc. Y mae'n cynnwys cyngor yn ymwneud â dysgu a gweithio, amser rhydd, iechyd a lles, yn ogystal ag arian a budd-daliadau, tai, diwylliant, newyddion a digwyddiadau.
Gwefan: **http://www.movingonup.info**